| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Mai 2015** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Proses y Gyllideb 2016/17** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y broses i ddarparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyfredol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Ystyried y diweddariad diweddaraf a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cynhaliwyd y ddau weithdy cyllideb cyntaf i aelodau ystyried arbedion posibl ar gyfer 2016/17 ar 23 Chwefror a 26 Mawrth. Roedd y ddwy sesiwn hyn yn canolbwyntio ar y cynigion a ohiriwyd o weithdai blaenorol y gyllideb.

Mae gweithdai eraill ynglŷn â'r gyllideb wedi'u trefnu ar gyfer 5 Mehefin, 26 Hydref a 14 Rhagfyr. Wrth ddatblygu proses 2016/17 ymhellach, efallai y bydd angen trefnu mwy o weithdai. Mae Atodiad 1 yn cynnwys siart proses y gyllideb er gwybodaeth. Mae'r siart yn amlinellu'r broses i ddarparu arbedion 2016/17 ac yn ategu at y broses a ddechreuodd ym mis Mawrth 2014. Mae'r 'cyfnodau' arbed y cyfeirir atynt yn golygu'r pwyntiau penderfynu a gyflwynir i'r Cyngor i'w cymeradwyo. Mae Camau 1-3 wedi'u cymeradwyo eisoes ac felly mae'r siart yn dechrau yng Ngham 4.

Bydd y gyfres nesaf o gynigion ar gyfer 2016/17, gan gynnwys yr eitemau a drafodwyd yn y ddau weithdy diwethaf, yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf i'w cymeradwyo. Mae cyfanswm y cynigion hyn yn debygol o fod rhwng £1.5 miliwn a £2.0m, ac maent yn canolbwyntio ar fesurau effeithlonrwydd a moderneiddio yn hytrach na thoriadau gwasanaeth neu gynnydd i ffioedd neu gostau.

Ar hyn o bryd, mae cyfres o gyfarfodydd yn cael ei chynnal gyda gwasanaethau i adolygu cyllidebau ac ystyried cynigion cyllideb newydd. Bydd gweithdy mis Mehefin yn edrych ar y cynigion amlinellol o'r cyfarfodydd hyn,

ynghyd ag unrhyw gynnig gan aelodau etholedig. Rhoddwyd ffurflen i arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ym mis Ebrill er mwyn helpu i nodi unrhyw gynigion yr hoffai aelodau eu cyflwyno i'w hystyried. Mae'r ffurflen yn caniatáu i'r Adran Gyllid a gwasanaethau eraill adolygu ac asesu pob cynnig ac yn rhoi cyfle iddynt roi adborth penodol i'r cynigydd neu'r grŵp gwleidyddol.

Bydd y cynigion a nodir ym mis Mehefin yn cael eu mireinio yn ystod yr haf a naill ai'n cael eu cyflwyno i'r gweithdy ym mis Medi neu i'r Cyngor i'w cymeradwyo ym mis Rhagfyr. Yna bydd y gweithdy ym mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar y cynigion terfynol i gydbwyso'r gyllideb.

Bydd pob cynnig yn cael ei asesu gan yr Adran Gyllid i benderfynu ar effaith debygol y gyllideb yn 2016/17. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw gost ymlaen llaw neu gost adnewyddu yn cael ei chyfrif ac yn cael ei defnyddio i ddarparu asesiad risg ariannol o ran a yw'r amserlenni yn rhesymol i gyflawni'r arbedion yn llawn neu'n rhannol yn ystod 2016/17.

Yn dilyn y gyfres bresennol o gyfarfodydd cyllideb gyda gwasanaethau, bydd adolygiad o'r cynigion yn cael ei gynnal gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Bydd proses y gyllideb hefyd yn cael ei hadolygu er mwyn penderfynu a oes angen ei mireinio neu ei diwygio. Bydd canlyniad hyn yn cael ei adrodd i'r gweithdy cyllideb ar gyfer aelodau ar 5 Mehefin.

Y bwlch a ragwelir yn y gyllideb ar gyfer 2016/17 yw tua £8.8 miliwn. Mae arbedion o £2.7 miliwn wedi'u cymeradwyo fel rhan o'r broses gyfredol (yng nghamau 1 a 2 a gymeradwywyd ym mis Medi a Rhagfyr 2014) gan olygu mai'r blwch sy'n weddill yw tua £6.1 miliwn. Mae'r bwlch yn y gyllideb yn cael ei gyfrifo drwy gymhwyso cyfres o dybiaethau. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw lefel y setliad i awdurdodau lleol ar ffurf Grant Cynnal Refeniw. Mae pob canran o newid i werth y setliad yn cyfateb i oddeutu £1.4 miliwn. Mae lefel sylweddol o ansicrwydd ynghylch setliad tebygol y Llywodraeth Leol ac mae'r ansicrwydd hwn yn debygol o barhau dros y misoedd nesaf. Hyd at fis Mai 2013, roedd gwerth y setliad yn gymharol gyson â'r arwyddion blaengynllunio a gyhoeddwyd yn genedlaethol yn 2011. Ers hynny, ni fu unrhyw setliad aml-flwyddyn ac mae'r arwyddion yn newid yn gyson rhwng ac o fewn blynyddoedd ariannol. Yn absenoldeb gwybodaeth fwy dibynadwy am y setliad, mae'n rhaid i ni barhau â'r cynlluniau cyllideb i ddatblygu cynigion ar gyfer amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd. Bydd y setliad drafft ar gyfer llywodraeth leol yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y Cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Efallai y bydd ar y Cyngor angen sicrhau arbedion a mesurau eraill o oddeutu £8.8 miliwn dros y flynedd ariannol nesaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gwblhau ar gyfer yr holl gynigion perthnasol wrth i'r broses ddatblygu.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw manwl at y broses ymgynghori sylweddol a wnaed i gyflawni cyllidebau 2015/16 a 2016/17 ac mae'r rhain wedi’u hamlygu isod.

Yn ychwanegol at adroddiadau rheolaidd ar y broses i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi’i hystyried gan CET, yr UDA, Briffio’r Cabinet a chyfarfodydd Briffio’r Cyngor. Mae Pwyllgorau Archwilio wedi adolygu cynigion penodol ac roedd un yn seiliedig ar argymhellion gan grŵp tasg a gorffen aelodau / swyddogion.

Erbyn diwedd y broses pennu cyllideb 2015/16, roedd deg gweithdy cyllideb wedi’u cynnal gydag aelodau etholedig er mwyn archwilio cyllidebau gwasanaethau ac ystyried cynigion cyllidebau. Mae pum gweithdy pellach wedi’u trefnu i ystyried cynigion a diwallu bwlch cyllideb 2016/17 ac efallai y bydd angen trefnu mwy wrth i'r broses fynd rhagddi.

Fel y nodir mewn adroddiadau blaenorol, cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd i ystyried effaith cynigion y gyllideb ac mae trafodaethau parhaus rhwng rhai o wasanaethau'r Cyngor Sir a rhai Cynghorau Tref. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd ac mae trafodaethau penodol wedi’u cynnal gyda'r Heddlu.

Mae’r holl aelodau o staff wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â’r broses o osod y gyllideb a phan fydd cynigion yn newid i fod yn benderfyniadau, ymgynghorir yn llawn â’r staff yr effeithir arnynt, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau AD y Cyngor.

Ymgynghorwyd â’r Undebau Llafur trwy’r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol. Cytunwyd ar broses ar gyfer ymgysylltu â staff a’u cynrychiolwyr Undeb Llafur yn CBYLl ym mis Medi ac mae’n cael ei weithredu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Mae hon yn parhau’n broses anodd, a bydd rhai penderfyniadau anodd eu gwneud ar hyd y daith. Mae ymrwymiad a chefnogaeth aelodau etholedig yn y broses o wneud penderfyniadau ac archwilio’r broses yn hanfodol.

Nod proses y gyllideb yw sicrhau bod y Cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae nifer o bwyntiau adolygu wedi’u hymgorffori i mewn i'r broses er mwyn

sicrhau ei bod yn aros ar y trywydd iawn a bod modd ei diwygio os nad ydyw. Mae'r ansicrwydd ynghylch lefel y setliad yn golygu y gall y bwlch yn y gyllideb a amcangyfrifwyd newid ar gyfer 16/17, ond mae'n rhaid i hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun y tebygolrwydd y bydd setliadau negyddol yn parhau yn y tymor canolig.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r Cyngor wedi'i wynebu a byddai methu a chyflawni strategaeth gyllideb effeithiol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y dyfodol.

Mae proses y gyllideb ei hun yn fesur rheoli risg, gyda'r nod o nodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol. Mae'r broses fel yr amlinellwyd yn cynnwys digon o gyfleoedd i adolygu a diwygio os oes angen. Bydd lefel y cynigion a nodwyd ym mis Mehefin drwy ymgynghori â gwasanaethau a lefel y cynigion a gyflwynwyd gan aelodau yn llywio gweddill y broses.

Mae rheoli risg proses y gyllideb yn ystyriaeth allweddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac mae risgiau penodol wedi'u codi mewn adroddiadau blaenorol. Wrth nodi pob cynnig mae'r risgiau ariannol a'r risgiau gwasanaeth yn cael eu nodi a'u hamlygu yn y gweithdai cyllideb wrth iddynt gael eu datblygu.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.